MEDDYGAETH

Mae graddedigion sy'n ennill cymhwyster meddygol sylfaenol, hy Baglor mewn Meddygaeth (BM) neu Faglor mewn Llawfeddygaeth (BS) yna'n dilyn hyfforddiant ôl-raddedig yn y gyrfaoedd o'u dewis ym maes meddygaeth. Efallai y bydd tua 1% o ymgeiswyr yn dewis gweithio mewn meysydd eraill. Yn ogystal â sawl gallu proffesiynol a chlinigol sy'n benodol i Feddygaeth, fel unigolyn sydd wedi graddio mewn Meddygaeth fel arfer bydd gennych y gallu i:

- Adalw, reoli a thrin gwybodaeth ym mhob ffordd gan gynnwys yn electronig.
- Cyflwyno gwybodaeth yn glir yn ysgrifenedig, yn electronig ac ar lafar a mynegi syniadau a dadleuon yn effeithiol.
- Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol sy'n berthnasol i'ch dyletswyddau.
- Rheoli amser ac adnoddau yn effeithiol a phennu blaenoriaethau.
- Astudio pynciau yn fanwl a dangos dealltwriaeth o ddulliau gwyddonol ac ymchwil.
- Mabwysiadu egwyddorion ymarfer myfyriol a dysgu gydol oes.
- Ymdrin ag ansicrwydd a gweithio mewn amgylchedd sy'n newid.
- Peidio â barnu, gan addysgu a gweithredu fel mentor a gweithio'n effeithiol mewn tîm.
- Mabwysiadu dull sy'n dangos empathi ac sy'n gyfannol tuag at gleifion a'r problemau sydd ganddynt.
- Cyfryngu a thrafod gyda chleifion, cynhalwyr a chydweithwyr.
- Dangos hyfedredd mewn rhesymu clinigol er mwyn diffinio a blaenoriaethu problemau, dehongli a blaenoriaethu gwybodaeth ac ymarfer barn broffesiynol.
- Dysgu a defnyddio llawer o wybodaeth wyddonol ac ymarferol.

Trosolwg o Feddygaeth

Mae Meddygaeth yn ymwneud â chynnal a hybu iechyd da a tharddiad, gwneud diagnosis, trin ac atal clefydau ac anafiadau, ac effaith salwch ac anabledd ar gleifion, eu teuluoedd ac ar boblogaethau. Mae hyn yn cynnwys deall y corff dynol a sut mae'n gweithio yn ystod holl gamau datblygu, deall annormaleddau o ran y corff a'i weithredoedd sy'n digwydd yn y clefydau cyffredin a chydnabod sut mae salwch yn effeithio ar weithrediad corfforol a seicolegol a'r ffordd y mae cleifion yn rhyngweithio â'r amgylchedd a chymdeithas.

Mae addysg feddygol yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn atal, gwneud diagnosis ac asesu clefydau cyffredin a phwysig mewn amrywiaeth o leoliadau, a goruchwylio cleifion o ran rheoli, gwella, adsefydlu a chefnogi a darparu gofal lliniarol.

Ar ôl cwblhau graddau is-raddedig mewn meddygaeth gall graddedigion gwblhau blwyddyn fel meddygon ty cyn cofrestru. Rhaid i raddedigion fod yn barod i gymryd rhan mewn addysg barhaus a datblygiad proffesiynol gydol eu bywyd gwaith.

Ffynhonnell: CIHE 2006